

Hawliau Dynol: Ymrwymiad AGC i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth

Hawliau Dynol: Ein hymrwymiad i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth

Fel rheoleiddiwr, prif gyfrifoldeb Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw sicrhau y gweithredir yn unol â'r gyfraith mewn perthynas â chynnal gwasanaethau gofal. Mae'r cyfreithiau sy'n llywodraethu gwasanaethau gofal yn cael eu hadlewyrchu'n bennaf trwy "reoliadau" ac mae'r rhain wedi cael eu datblygu'n ofalus i ymgorffori egwyddorion a gofynion cyfreithiol hawliau dynol. Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gofal yn rhagweld ac yn adlewyrchu hawliau pobl. Felly trwy asesu cofrestriadau, cynnal arolygiadau a dilyn cydymffurfiaeth â "reoliadau", rydym yn weithredol wrth hyrwyddo a cheisio cynnal hawliau dynol cyfreithiol pobl.

Rydym hefyd yn cydnabod bod deddfwriaeth ac arferion hawliau dynol mewn cyflwr o newid parhaus, ac yn symud y tu hwnt i'r sefyllfa y lluniwyd y rheoliadau ynddi, ac mae angen adlewyrchu hyn yn y modd rydym yn gwneud ein gwaith. Felly rydym wedi datblygu fframweithiau arolygu gyda chanllawiau ar gyfer ein harolygwyr i roi pwyslais ychwanegol ar berthnasedd a phwysigrwydd hawliau dynol o fewn ein gwaith.

Yn benodol, rydym wedi nodi llwybrau ymholi allweddol o fewn ein fframwaith arolygu i ystyried egwyddorion hawliau dynol ac wedi nodi enghreifftiau o'r hyn sy'n ofal annerbyniol ac a ystyrir i fod yn torri hawliau pobl ac yn torri rheoliadau gofal.

Lle mae gofal yn annerbyniol, byddwn bob amser yn cymryd camau gorfodi.

Y fframwaith hawliau dynol sylfaenol:

Mae'r cysyniad o set o hawliau dynol sylfaenol yn un cymharol syml; ond mae deddfwriaeth ac arferion hawliau dynol yn gymhleth ac yn newid. Nid yw pob hawl yn absoliwt; mae rhai'n gyfyngedig ac mae gan eraill amodau, a dylid eu gweithredu mewn ffordd gymesur.

At hynny, yn y meysydd rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu, datblygwyd cyfreithiau, siarteri a chonfensiynau ychwanegol – er enghraifft, mewn perthynas â phobl â chefnidroedd amrywiol, plant, pobl ag anabledau, pobl heb allu meddyliol a phobl hŷn. Mae llawer o'r rhain yn ailddatgan hawliau dynol sylfaenol fel y'u hamlinellir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, neu yn cynnig dehongliad ychwanegol neu feysydd ychwanegol i'w hystyried.

Rydym wedi datblygu fframwaith arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir yn seiliedig ar egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a diffiniad cyfreithiol "llesiant". Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys amddiffyn unigolion a'u hawliau. Yn y dyfodol, bydd arolygwyr yn ystyried pedair thema wrth gynnal eu harolygiadau, ac yn llunio adroddiadau yn seiliedig arnynt; llesiant pobl, ansawdd gofal, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, ac ansawdd yr amgylchedd mewn gwasanaethau a ddarperir mewn "lleoliad".

Mae'r hawliau sylfaenol sydd fwyaf perthnasol i ofal cymdeithasol yn y Confensiwn Ewropeaidd wedi eu hamlinellu isod, gyda chyfeiriad at ein fframwaith arolygu ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir.

Erthygl	Thema'r arolygiad a llwybrau ymholi posibl
Erthygl 2: Hawl i fywyd	Llesiant: • Gofal diogel • Digon o faethiad a hydradiad • Gofal meddygol priodol • Profiad o gynllunio a gofal diwedd oes Ansawdd gofal: • Profiad o gynllunio a gofal diwedd oes Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth: • Camau a gymerwyd i ddiogelu bywydau pobl • Rheoli risgiau – ym mhob agwedd, ond gan gynnwys rheoli heintiau, rheoli ymddygiad, rheoli hunan niwed.
Erthygl 3: I beidio â dioddef artaith neu driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol	Ansawdd gofal: • Gofal meddygol priodol, yn enwedig gofal manau pwyso • Gofal ymataliaeth • Defnyddio dulliau atal • Ansawdd rhyngweithiadau'r staff Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth: • Diwylliant o ofal • Ymateb i gwynion a chwythu'r chwiban • Trefniadau diogelu
Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch	Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth: • Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn briodol Ansawdd yr amgylchedd: • Cyfleoedd i symud yn rhydd a threfniadau ar gyfer diogelwch

Erthygl 6: Hawl i dreial teg	Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth: • Gwneud defnydd teg o brosesau disgyblu staff • Ymdrin â chwynion mewn ffordd deg ynghylch pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth • Argaeledd eiriolaeth
Erthygl 8: Hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol	Llesiant: • Gallu pobl i gael dewis a rheolaeth; awtonomi personol • Preifatrwydd pan mae pobl ei angen/eisiau • Gallu pobl i fod yn annibynnol a byw bywyd mor normal â phosibl • Gallu pobl i gynnal perthnasau a chysylltiadau â'r gymuned Ansawdd gofal: • Profiad o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gofal dan arweiniad yr unigolyn • Diwylliant o alluogi Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth: • Cyfrinachedd a thrin data personol
Erthygl 9: Hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd	Llesiant: • Gallu pobl i arfer credoau a dilyn arferion crefyddol
Erthygl 14: Hawl i amddiffyniad rhag gwahaniaethu	Llesiant: • Profiad pobl o arwahanu, o deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac o gael eu parchu • Cefnogaeth ar gyfer anghenion diwylliannol a deietegol, iaith, gweithgareddau Ansawdd gofal: • Cydraddoldeb o ran mynediad at ofal a chymorth • Rhagweld anghenion cyfathrebu; cyfrwng iaith (Cymraeg ac ieithoedd eraill) Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth: • Diwylliant sy'n hybu amrywiaeth ac sy'n ymatebol i wahanol anghenion Ansawdd yr Amgylchedd: • Trefniadau mynediad a chymorth

Rydym hefyd wedi amlinellu'r hyn rydym yn eu hystyried i fod yn enghreifftiau o ofal da o ganlyniad i'r ffaith bod hawliau pobl yn cael eu parchu. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, ond mae'n dangos rhai o'r pryderon mwyaf cyffredin sy'n codi.

Erthygl	Enghreifftiau o ofal annerbyniol	Enghreifftiau o ofal da
Erthygl 2: Hawl i fywyd	Mae pobl yn dioddef o ddiffyg maethiad neu ddiffyg hylif Mae pobl yn dioddef niwed difrifol neu'n marw o ganlyniad i ofal annigonol neu fethiant i reoli risgiau Nid yw pobl yn gallu derbyn gofal meddygol pan mae ei angen arnynt	Cefnogi llesiant: Mae pobl yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwed neu esgeulustod – ac yn teimlo hyn. Mae pobl yn mwynhau prydau a diodydd priodol, iach a maethlon. Caiff amseroedd prydau bwyd eu trefnu'n briodol, ac maen nhw'n hyblyg er mwyn bodloni anghenion pobl. Mae pobl yn derbyn cefnogaeth i gael digon i'w fwyta ac i'w yfed. Ansawdd gofal a chymorth: Mae pobl mor ddiogel ac mor iach â phosibl am eu bod yn derbyn gofal rhagweithiol ac ataliol, ac mae amrywiaeth eang eu hanghenion yn cael ei rhagweld. Mae atgyfeiriadau'n cael eu gwneud at weithwyr proffesiynol perthnasol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd amserol pan mae anghenion pobl yn newid.
Erthygl 3: I beidio â dioddef artaith neu driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol	Mae pobl yn byw mewn poen diangen Mae pobl yn cael eu ceryddu, eu cam-drin ar lafar, neu'n dioddef ymosodiadau corfforol neu rywiol Mae pobl yn cael eu gwawdio ac yn destun jôcs	Cefnogi llesiant: Mae pobl yn cael eu hannog i siarad, i fynegi eu hunain, ac, os yw'n angenrheidiol, derbyn cefnogaeth eiriolaeth sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau. Maen nhw'n cael eu trin â pharch ac urddas, ac mae eu hunaniaethau unigol a'u harferion yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi. Mae buddion pennaf pobl yn cael eu deall a'u hyrwyddo. Mae pobl yn gallu bod mor annibynnol â phosibl trwy gymryd risgiau cadarnhaol. Ansawdd gofal a chymorth: Mae pobl yn cael eu trin â charedigrwydd a thrugaredd yn ystod eu gofal o ddydd i ddydd.

		Mae pobl yn cael cynnig cynhesrwydd, anogaeth a chymorth emosiynol.
Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch	Mae pobl yn cael eu rhwystro neu'n cael eu rhoi dan glo heb awdurdodiad priodol Rhoddir cyffuriau tawelyddu i bobl yn ddiangen Mae eiddo personol pobl yn cael ei ddwyn neu ei gamddefnyddio	Arweinyddiaeth a rheolaeth: Mae Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu defnyddio'n briodol. Mae systemau cadarn a thryloyw ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â chanlyniadau i bobl, sy'n cynnwys adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Yr amgylchedd: Mae cyfleoedd i symud yn rhydd a threfniadau ar gyfer diogelwch. Gofelir am y bobl mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn gynnes ac sydd wedi'i gadw mewn cyflwr da. Mae'r angen am breifatrwydd a chyfrinachedd yn cael ei ragweld a'i barchu.
Erthygl 6: Hawl i dreial teg	Mae pobl yn derbyn rhybudd heb gyfiawnhad neu wrandawriad teg	Arweinyddiaeth a rheolaeth: Mae cwynion yn cael eu trin yn deg; mae pobl sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â'r cartref yn gwybod sut i godi pryderon, yn cael eu cefnogi i wneud hynny, ac mae'r rhain yn cael sylw.
Erthygl 8: Hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol	Rhoddir gofal personol preifat yng ngolwg y cyhoedd Nid yw pobl yn cael cymorth i edrych yn daclus Nid oes ymgynghoriad â phobl ynghylch y gofal a'r cymorth y maen nhw'n eu derbyn Nid yw pobl yn cael preifatrwydd pan maent ei angen neu'n gofyn amdano Nid yw pobl yn cael ymwelwyr oni bai bod rheswm da iawn Caiff gwybodaeth a data preifat pobl eu rhannu mewn ffordd	Cefnogi llesiant: Mae pobl yn cael eu hannog i siarad, i fynegi eu hunain, ac, os yw'n angenrheidiol, derbyn cefnogaeth eiriolaeth sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau. Maen nhw'n cael eu trin â pharch ac urddas, ac mae eu hunaniaethau unigol a'u harferion yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi. Ansawdd gofal a chymorth: Mae pobl yn cymryd rhan lawn mewn gwneud penderfyniadau am y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn ac am y ffordd maen nhw'n treulio eu hamser. Arweinyddiaeth a rheolaeth: Yn gallu dangos eu bod yn gweithredu'n

	amhriodol	gyson gyda diwydrwydd a gofal dyladwy, eu bod yn gallu dirprwyo cyfrifoldebau mewn modd eglur, a bod ganddynt systemau gweinyddol effeithiol.
Erthygl 9: Hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd	Mae pobl yn cael eu gwawdio a'u beirniadu am eu crefydd Mae pobl yn cael cyfleoedd priodol i ddilyn eu crefydd Mae pobl yn derbyn bwyd nad yw'n cyd-fynd â thraddodiadau eu crefydd	Cefnogi llesiant: Mae pobl yn cael eu hannog i siarad, i fynegi eu hunain, ac, os yw'n angenrheidiol, derbyn cefnogaeth eiriolaeth sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau. Maen nhw'n cael eu trin â pharch ac urddas, ac mae eu hunaniaethau unigol a'u harferion yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi. Galluogir pobl i wneud pethau drostynt eu hunain ac i gynnal, adennill a datblygu eu sgiliau, diddordebau a'u credoau unigol.
Erthygl 14: Hawl i amddiffyniad rhag gwahaniaethu	Mae pobl yn dioddef gwahaniaethu i'r fath raddau nad ydynt yn derbyn gofal priodol, neu maent yn cael eu trin mewn ffordd nad yw'n deg nac yn gyfartal. Mae pobl yn cael eu gwawdio neu eu beirniadu am eu cefndir diwylliannol, eu cyfeiriadedd rhywiol neu anableddau.	Cefnogi llesiant: Mae pobl yn cael eu hannog i siarad, i fynegi eu hunain, ac, os yw'n angenrheidiol, derbyn cefnogaeth eiriolaeth sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau. Maen nhw'n cael eu trin â pharch ac urddas, ac mae eu hunaniaethau unigol a'u harferion yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi.